| | | |
|---|---|---|
| | **Dyddiad creu:** | 08/07/21 |
| | **Dyddiad cyhoeddi:** | 23/06/23 |
| | **Rhif y fersiwn:** | 1.02 |

| | |
|---|---|
| **Maes Gwasanaeth:** | Adfywio a Chynllunio |
| **Man Gweithio:** | Adfywio Cymunedol |
| **Manylion Cyswllt:** | 07808 203659<br>AdfywioCymunedol@caerffili.gov.uk |
| **Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Rhaglenni Cyflogadwyedd |
| **Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn egluro pa ddata bydd rhaglen cyflogadwyedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn eu casglu, a sut bydden nhw'n ei ddefnyddio. |

# Sut y byddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth chi

## Ffynhonnell a'r math o wybodaeth sy'n cael ei phrosesu

### Categorïau o ddata personol sy'n cael eu casglu

Os ydych chi wedi cael eich atgyfeirio at y rhaglenni cyflogadwyedd, bydden nhw wedi cael y wybodaeth ganlynol amdanoch chi:

- Dynodwyr personol megis eich enw, dyddiad geni, rhif Yswiriant Cenedlaethol, cyfenw blaenorol (os oes un) a rhif adnabod wedi'i rhoi gan y prosiect
- Eich manylion cyswllt
- Data statws cartref megis os oes gennych chi gyfrifoldebau gofalu neu os ydych chi mewn perygl o ddod yn ddigartref
- Manylion statws cyflogaeth megis os ydych chi allan o waith ar hyn o bryd ac am ba mor hir, eich manylion gwaith os ydych chi mewn cyflogaeth
- Data cyfle cyfartal megis rhyw, ethnigrwydd, aelodaeth o grŵp lleiafrifoedd ethnig, statws gweithwyr mudol ac anableddau neu gyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar waith.
- Data asesu a chymhwysedd megis eich cymwysterau cychwynnol, eich nodau a rhwystrau i chi ennill cyflogaeth a/neu gamu ymlaen yn eich gyrfa
- Data am yr iaith Gymraeg, megis eich sgiliau wrth ddefnyddio'r iaith a'r iaith cyfathrebu a ffafrir gennych chi.
- Data yn ymwneud â'r gweithgareddau rydych chi'n ymgymryd ynddyn nhw gyda'r prosiect, megis manylion cwrs neu waith grŵp, dyddiadau, y cymorth sydd wedi cael ei derbyn a'r cynlluniau gweithredu sy'n cael eu cytuno.
- Manylion y lleoliad: Darparwr y lleoliad, dyddiadau'r lleoliad ac adolygiadau
- Data yn ymwneud â chanlyniadau'r gweithgareddau rydych chi'n ymgymryd â nhw megis y cymwysterau rydych chi wedi'u hennill, ennill cyflogaeth neu unrhyw newidiadau eraill yn eich statws cyflogaeth.

**Ffynhonnell y data personol**

Cafodd y wybodaeth hon ei rhannu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gan sefydliad arall fel y manylir isod:

Rydyn ni'n cael gwybodaeth gan sefydliadau megis cyrff llywodraethu, asiantaethau cyflogi a phartneriaid allanol eraill, gan gynnwys Gyrfa Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau, Remploy, Cymru'n Gweithio a Llamau, a fyddai wedi gofyn am eich caniatâd i wneud yr atgyfeiriad. Efallai hefyd bydden ni'n cael gwybodaeth gan ffynonellau mewnol y Cyngor megis y Gwasanaethau Cymdeithasol

## Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth chi

**Diben y gwaith prosesu**
Rôl y rhaglenni cyflogadwyedd yw darparu cymorth i gyfranogwyr sy'n ddi-waith ar hyn o bryd, mewn cyflogaeth, neu yn chwilio am a/neu'n cyflawni profiad gwaith i gynyddu'r tebygolrwydd o gael canlyniad llwyddiannus. Rydyn ni'n casglu eich manylion personol at y dibenion canlynol:

- Sicrhau cymhwysedd ar gyfer y rhaglen
- Rhoi cymorth wedi'i deilwra o gynllun gweithredu sydd wedi'i gytuno arno
- Cadw mewn cysylltiad â chyfranogwyr
- Ymddwyn ar ran cyfranogwyr yn ôl yr angen a gyda chaniatâd y cyfranogwyr
- Monitro cynnydd a thracio canlyniadau, gan gynnwys canlyniadau cyflogaeth neu ganlyniadau cymwysterau
- I rannu straeon a newyddion da er mwyn helpu hyrwyddo a hysbysebu gwasanaethau'r rhaglenni cyflogadwyedd (Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw'n anhysbys)
- I adrodd am ganlyniadau at ddibenion ariannu, ac i gynllunio a datblygu polisïau er mwyn sicrhau cynaliadwyedd y rhaglen yn y dyfodol

Ein prif ddiben ar gyfer casglu gwybodaeth yw sicrhau cymhwysedd y prosiect a hefyd i sicrhau manylion cywir er mwyn cefnogi testun y data yn y ffordd orau.

**Sail gyfreithiol ar gyfer y gwaith prosesu**

Mae rhwymedigaeth tasg gyhoeddus i brosesu eich gwybodaeth a nodir isod:

Er mwyn i brosesu data personol fod yn gyfreithlon o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016, mae'n rhaid nodi amod dilys o Erthygl 6 o'r Rheoliad, a amlinellir isod (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

1(e) - processing is necessary for the performance of a task carried out in the public interest or in the exercise of official authority vested in the controller;

Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn darparu amddiffyniad ychwanegol ar gyfer rhai dosbarthiadau o wybodaeth o'r enw data personol 'categori arbennig', sy'n cynnwys gwybodaeth am eich iechyd corfforol neu feddyliol. Os bydd unrhyw wybodaeth yn dod o fewn y diffiniad o ddata personol categori arbennig, yna mae'n rhaid nodi amod ychwanegol o Erthygl 9 o'r Rheoliadau, fel yr amlinellir isod (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

(2)(g) - processing is necessary for reasons of substantial public interest, on the basis of Union or Member State law which shall be proportionate to the aim pursued, respect the

essence of the right to data protection and provide for suitable and specific measures to safeguard the fundamental rights and the interests of the data subject;

Mae hefyd angen amod ychwanegol o'r Ddeddf Diogelu Data, 2018, Atodlen 2 ar yr amod uchod (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw)

6 (1) This condition is met if the processing—
- (a) is necessary for a purpose listed in sub-paragraph (2), and
- (b) is necessary for reasons of substantial public interest.

(2) Those purposes are—
- (a) the exercise of a function conferred on a person by an enactment or rule of law;
- (b) the exercise of a function of the Crown, a Minister of the Crown or a government department.

Mae'r deddfiadau neu reolau cyfreithiol priodol i'r amod uchod wedi'u nodi yn:

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
Deddf Tai (Cymru) 2014 Atal Digartrefedd

Mae deddfwriaeth Diogelu Data hefyd yn darparu amddiffyniad ychwanegol ar gyfer data personol mewn perthynas ag euogfarnau troseddol a throseddau. Os bydd unrhyw ddata personol yn dod o fewn y categori hwn, yna rhaid nodi amod ychwanegol o Erthygl 10 o'r Rheoliadau, fel yr amlinellir isod (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

1(1) This condition is met if—

(a) the processing is necessary for the purposes of performing or exercising obligations or rights which are imposed or conferred by law on the controller or the data subject in connection with employment, social security or social protection, and

(b) when the processing is carried out, the controller has an appropriate policy document in place (see paragraph 39 in Part 4 of this Schedule).

## Pwy fydd yn cael mynediad at eich gwybodaeth chi?

**Manylion y Rheolydd Data a'r Swyddog Diogelu Data**

Y Rheolydd Data ar gyfer eich gwybodaeth chi yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y Swyddog Diogelu Data yw:

Mr Carl Evans
Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol/Swyddog Diogelu Data
E-bost: DiogeluData@caerffili.gov.uk
Ffôn: 01443 864322

Efallai y bydd Rheolyddion Data eraill hefyd yn gyfrifol am eich gwybodaeth chi, yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r maes gwasanaeth.

**Manylion am brif ddefnyddwyr eich gwybodaeth chi**

Tîm Adfywio Cymunedol

### Manylion am unrhyw achos o rannu'ch gwybodaeth o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Efallai bydd atgyfeiriadau a rhannu data ychwanegol ag adrannau mewnol eraill yn seiliedig ar anghenion a gofynion unigolion gan gynnwys Gofalu am Gaerffili, Cefnogi Pobl, Tai a Chyngor a Chymorth.

### Manylion am unrhyw achos o rannu'ch gwybodaeth â sefydliadau eraill

Efallai bydd atgyfeiriadau a rhannu data ychwanegol ag adrannau mewnol eraill yn seiliedig ar anghenion a gofynion unigolion gan gynnwys Cymru'n Gweithio, yr Adran Gwaith a Phensiynau, gwasanaethau iechyd meddwl, cymdeithasau tai ac ati. Bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Llywodraeth Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cael gwybodaeth at ddiben hawlio cyllid allanol.

### Manylion am unrhyw brosesyddion data allanol

Rydyn ni'n defnyddio prosesydd data allanol ar gyfer darparu gwasanaethau meddalwedd. Mae gennym ni gontract ar waith gyda’r prosesydd data sy’n diogelu eich gwybodaeth bersonol, a chaiff hwn ei gynnal gan Gyngor Dinas Casnewydd.

Lle mae prosesydd data allanol yn defnyddio is-brosesydd i gefnogi eu meddalwedd cymwysiadau a'u seilwaith gweinydd technoleg gwybodaeth, bydd telerau ychwanegol yn cael eu darparu o dan ein contract gyda'r prosesydd data i rwymo'r is-brosesydd â'r lefel gyfatebol o ddiogelwch i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol.

### Ceisiadau am wybodaeth

Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth a gedwir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a deddfwriaeth Diogelu Data.

Os bydd yr wybodaeth wedi'i darparu gennych chi yn destun cais o'r fath, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau, lle bo hynny'n bosibl. Os byddwch chi'n gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth chi, byddwn ni'n cadw'r wybodaeth yn ei hôl, os bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu i hynny ddigwydd.

## Am ba mor hir y byddwn ni'n cadw eich gwybodaeth chi?

### Manylion am y cyfnod cadw

Mae'r cyfnod y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cadw gwybodaeth yn cael ei bennu drwy ofynion statudol neu arferion gorau.

Unwaith bydd eich ffeil yn cau, byddwn ni'n cadw eich cofnodion am 7 mlynedd.

## Marchnata

### Manylion am y marchnata

Rydych wedi caniatáu i'ch manylion cyswllt gael eu defnyddio at ddibenion marchnata. Byddwch/rydych wedi cael manylion y marchnata y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn hoffi ei wneud, ynghyd ag unrhyw opsiynau megis sut yr hoffech i ni gysylltu â chi. Gallwch dynnu'ch caniatâd i farchnata ar unrhyw adeg drwy gysylltu â'r Man Gwasanaeth drwy ddefnyddio'r manylion ar frig y ffurflen hon

# Eich hawliau chi (gan gynnwys y Weithdrefn Gwyno)

### Eich hawliau chi o dan y Ddeddf Diogelu Data

Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i destun y data (y rheiny y mae'r wybodaeth yn sôn amdanyn nhw):

- Hawl i gael mynediad at ddata gan y testun – mae ffurflenni cais ar gyfer y broses hon ar gael ar ein gwefan ni: Ffurflen Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun (SAR)
- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau chi ar gael ar y wefan hon: www.ico.org.uk

Er mwyn arfer eich hawliau chi, cysylltwch â'r maes gwasanaeth y manylir arno ar frig y ffurflen hon.

**Y Weithdrefn Gwyno**

Os ydych chi'n anfodlon ar y ffordd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymdrin â'ch cais/gwybodaeth chi, mae gennych chi'r hawl i gwyno. Cysylltwch â'r maes gwasanaeth y manylir arno ar frig y ddogfen hon gan amlinellu eich materion chi.

Os byddwch chi'n parhau'n anfodlon, mae gennych chi hefyd yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.  Am ragor o wybodaeth am y broses gwyno, dilynwch y ddolen hon.

www.caerffili.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints?lang=cy-gb

# Crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd

## Sut y byddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth chi

Rôl y rhaglenni cyflogadwyedd yw darparu cymorth i gyfranogwyr sy'n ddi-waith ar hyn o bryd, mewn cyflogaeth, neu yn chwilio am a/neu'n cyflawni profiad gwaith i gynyddu'r tebygolrwydd o gael canlyniad llwyddiannus. Ein sail gyfreithiol ar gyfer casglu eich data yw Tasg Gyhoeddus. Unwaith bydd eich ffeil yn cau, byddwn ni'n cadw eich cofnodion am 7 mlynedd. Efallai bydd atgyfeiriadau a rhannu data ychwanegol ag adrannau mewnol eraill yn seiliedig ar anghenion a gofynion unigolion gan gynnwys Cymru'n Gweithio, yYr Adran Gwaith a Phensiynau, gwasanaethau iechyd meddwl, cymdeithasau tai ac ati. Bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Llywodraeth Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cael gwybodaeth at ddiben hawlio cyllid allanol.

Mae gennych chi nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael gafael ar wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu.

I gael rhagor o wybodaeth am sut rydyn ni'n prosesu'ch gwybodaeth chi a'ch hawliau, cliciwch ar y ddolen ganlynol:

https://www.caerffili.gov.uk/caerphillydocs/foi/privacynotices/privacy-notice-employability-programmes-cy.aspx